



Royal College  
of Physicians

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)

# Dewis gyrfaol cadarnhaol: 6 mis yn ddiweddarach

Canfyddiadau a champau nesaf cyfarfod  
hydref 2022 rhwydwaith SAS RCP Cymru

Ionawr 2023



# Rhagair

Mae llawer o feddygon yn GIG Cymru eisiau gweithio'n fwy hyblyg, gyda mwy o reolaeth dros eu horiau eu hunain a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a chaniatáu iddynt ddewis ble maent yn byw a beth maent yn ei wneud yn y gwaith. A pham lai? Mae cyfraddau gorflino a lludded yn uwch nag erioed ymhlith staff y GIG. Gallai rhoi mwy o ymreolaeth i bobl ynghylch ble, sut a phryd y maent yn gweithio atal pobl rhag gadael y gwasanaeth iechyd a gofal yn gyfan gwbl.

Yn ddiweddar, [fe wnaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol \(GMC\) ddarogan y bydd mwy o feddygon arbenigol ac arbenigol cyswllt \(SAS\) a meddygon a gyflogir yn lleol \(LE\) na grwpiau eraill o fewn y ddegawd nesaf](#). Mae hwn yn newid sylweddol iawn i'r gweithlu meddygol, ac mae Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) wedi cydnabod ers tro y dylem fod yn gwneud mwy i annog a hyrwyddo'r meddygon hyn. Yn gynharach eleni fe wnaethom gyhoeddi [Dewis gyrfaol cadarnhaol: cefnogi meddygon SAS yng Nghymru](#) sy'n nodi argymhellion i ddenu a chadw'r grŵp allweddol hwn o staff.

Prinder staffio yw'r her fwyaf sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Ni all unrhyw swm o fuddsoddiad ariannol yn y GIG wneud iawn am y ffaith nad oes gennym ddigon o feddygon, nyrsys na staff gofal cymdeithasol i gadw i fyny ag anghenion cleifion. Rydyn ni'n hedfan yn ddall heb ddata gweithlu cywir, ac rydym yn parhau heb gynllun gweithlu manwl fydd yn nodi'n union sut rydyn ni'n mynd i wella'r sefyllfa.

Mae angen i ni recriwtio, cadw, ailgynllunio ac ailhyfforddi – y pedair elfen o adeiladu gweithlu cydnerth. Mae angen inni harneisio potensial y meddygon profiadol hyn, y mae llawer ohonynt

wedi penderfynu gwneud dewis gyrfaol cadarnhaol i optio allan o'r llwybr hyfforddiant ôl-raddedig. Ond mae'n rhaid i GIG Cymru feddwl y tu hwnt i'r canllawiau arferol.

Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod gan feddygon SAS amser wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu gyrfa, addysg ac ymchwil. Dylid cydnabod llwyth gwaith a phrofiad clinigol SAS yn ffurfiol. Dylai cyflogwyr hefyd archwilio'r ffordd y maent yn gweithredu'r [siarter SAS](#), cefnogi tiwtoriaid ac eiriolwyr SAS, ac arweinwyr tystysgrif cymhwysedd ar gyfer cofrestru arbenigol (CESR) i sefydlu fforymau meddygon SAS. Dylent hefyd weithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddod â meddygon SAS at ei gilydd mewn rhwydweithiau lleol.

## Dr Olwen Williams

Is-lywydd RCP Cymru

Ymgynghorydd mewn iechyd rhywiol a meddygaeth HIV

## Dr Jamie Read

Arweinydd SAS RCP ar gyfer Cymru

Arbenigwr cyswllt mewn gofal pobl hŷn

## Dr Jacob Daniel

Arweinydd SAS RCP

Deon addysg feddygol, Prifysgol Caerdydd

# Camau nesaf

1



**Byddwn yn gwahodd y** GMC, AaGIC a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru Wales i gwrdd â rhwydwaith SAS RCP Cymru yn ystod 2023.

2



**Byddwn yn gweithio** gyda cholegau brenhinol eraill i ddatblygu negeseuon ar y cyd ar gefnogi meddygon SAS.

3



**Byddwn yn ysgrifennu** at holl gyfarwyddwyr meddygol GIG Cymru i ofyn pa gynnydd y maent wedi'i wneud ar weithredu siarter SAS a bodloni argymhellion adroddiad RCP Cymru, *Dewis gyrfael cadarnhaol: cefnogi meddygon SAS yng Nghymru.*

4



**Byddwn yn gofyn** i Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru wahodd siaradwr SAS i siarad mewn cyfarfod o'r Cyngor am rôl a photensial meddygon SAS.

# Cefndir

Ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom gynnal digwyddiad Cyswllt RCP gyda meddygon SAS ledled Cymru, ac ar ôl hynny fe wnaethom gyhoeddi [Dewis gyrfaoel cadarnhaol: cefnogi meddygon SAS yng Nghymru](#), gan nodi nifer o argymhellion i lywodraeth Cymru, cyrff y GIG ac AaGIC. Mae hyn wedi'i rannu ag AaGIC, tiwtoriaid SAS, eiriolwyr SAS, arweinwyr CESR a'r rhwydwaith SAS yng Nghymru.

Mae strategaeth meddyg SAS RCP 2022–24 yn nodi sut y bydd RCP yn sicrhau bod meddygon SAS yn cael eu trin yn gyfartal o fewn RCP, yn cynnig cyfleoedd addysg a hyfforddiant wedi'u teilwra ac yn helpu meddygon SAS i ddatblygu gyrfaoedd boddhaus. Mae RCP hefyd yn cynnal [rhwydwaith SAS cenedlaethol](#) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r DU, ac yn ddiweddar rydym wedi lansio [RCP Launchpad](#), budd aelodaeth RCP sy'n dod â gwybodaeth, awgrymiadau a chanllawiau ynghyd mewn un adnodd i helpu meddygon ymgynghorol newydd a meddygon SAS i dyfu'n addysgwyr, hyfforddwyr ac ymarferwyr meddygol ymreolaethol rhagorol.

Ym mis Medi 2022, fe wnaethom gynnal ail gyfarfod rhwydwaith SAS RCP Cymru ar-lein. Cynrychiolwyd pob bwrdd iechyd unigol, gyda meddygon o amrywiaeth eang o arbenigeddau a chamau gyrfa. Mae'r adroddiad byr hwn yn amlinellu'r canfyddiadau a'r camau nesaf o'r cyfarfod hwn.

Yn fuan ar ôl ein cyfarfod, cyhoeddodd y GMC [The state of medical education and practice in the UK: workforce report 2022](#) a ganfu fod nifer y meddygon SAS ac LE wedi cynyddu 40% yn y 5 mlynedd diwethaf. Os bydd tueddiadau'n parhau, bydd mwy o feddygon SAS ac LE na meddygon teulu – ac arbenigwyr a hyfforddeion – fydd yn eu gwneud yn grŵp cofrestr mwyaf y DU erbyn 2030. Ymhellach, nid oes gan lawer o feddygon SAS unrhyw gynlluniau i wneud cais am CESR drwy'r GMC a fyddai'n caniatáu iddynt ddod yn ymgynghorydd. Yn amlwg, bydd gan hyn oblygiadau mawr i weithlu GIG Cymru.

Yn wir, [yn ddiweddar galwodd y BMA](#) feddygon SAS yn grŵp o weithwyr iechyd proffesiynol 'gweithgar, medrus iawn ond heb eu gwerthfawrogi', gan dynnu sylw at natur werth chweil cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gan roi lle i unigolion ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol ar eu cyflymder eu hunain.

**' Mae yna ddigon o bobl sydd wir ddim eisiau bod yn feddygon ymgynghorol, nid oherwydd nad yw'n swydd wych, ond oherwydd bod y swydd sydd ganddyn nhw'n barod yn un dda iawn. Er eu bod yn ddwy rôl wahanol, mae'r ddwy yr un mor werthfawr'**

– arweinydd SAS RCP Dr Jamie Read



# Canfyddiadau

## o gyfarfod hydref 2022 rhwydwaith SAS

### RCP Cymru

Mae cymhelliant a phroffil meddygon SAS yn newid. Yn gynyddol, wrth i fwy o feddygon ddewis gyrfa SAS yn rhagweithiol, maent yn ceisio gwell cydnabyddiaeth o'u sgiliau, eu harbenigedd a'u cyfraniad, yn ogystal â newidiadau i arferion gwaith sy'n gwella eu profiad addysgol ac arweinyddiaeth.

### Y broses tystysgrif cymhwysedd ar gyfer cofrestru arbenigol (CESR)

- > Mae yna lawer o resymau pam na fyddai meddyg SAS efallai eisiau gwneud cais am CESR. Fodd bynnag, mae meddygon SAS yn ymarferwyr ymreolaethol ac ni ddylent deimlo pwysau i ddilyn y trywydd hwnnw. Lle bo'n briodol, dylai clinigau a chleifion gael eu codio yn erbyn eu henw os dymunant.
- > Dylai fod gan bob arbenigedd fentor CESR ar lefel genedlaethol i arwain ymgeiswyr trwy fanylion cais.
- > Mae cyflawni cymhwyseddau ar gyfer CESR mewn rhai arbenigeddau yn anodd iawn os na allwch gyflawni gofynion y cwricwlwm yn eich ysbyty neu hyd yn oed eich bwrdd iechyd eich hun. Dylid cefnogi ymgeiswyr i ddod o hyd i a chwblhau secondiadau lle bo modd.
- > Gall meddygon sydd wedi hyfforddi dramor ddod ar draws problemau gyda'r broses CESR petaent wedi cael eu rhoi ar lwybr carlam oherwydd cyflawniad uchel yn y wlad y maent yn derbyn hyfforddiant ôl-raddedig, gan ei fod yn golygu efallai na fyddant yn gallu bodloni cymhwyseddau CESR sylfaenol.
- > Dylai meddygon sy'n gwneud cais am CESR allu defnyddio ystod fwy amrywiol o gymwysterau a chyflawniadau i brofi eu cymhwyseddau, yn enwedig os ydynt wedi hyfforddi dramor.

**'Yn aml mae'n rhaid i gydweithwyr sy'n mynd drwy'r broses CESR erfyn am ffafrau. Mae'n eu rhoi ar y droed ôl. Yng Nghymru, dylem ei gwneud yn glir ein bod am gefnogi'r meddygon hyn i archwilio eu hopsiynau, a fyddai'n anfon neges wahanol'**

– meddyg SAS

### Siarter SAS

- > Dylid grymuso a chefnogi fforymau / grwpiau llywio meddygon SAS ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd i archwilio gweithrediad y siarter SAS.
- > Mae llawer o fyrddau iechyd yn cael trafferth gweithredu siarter yr SAS oherwydd diffyg gofod swyddfa, cymorth ysgrifenyddol ac adnoddau staff. Nid yw cynllunio swyddi yn eang o hyd.
- > Dywed rhai meddygon SAS eu bod yn cael eu gwrthsefyll gan eu cyflogwr ynghylch eu rhyddhau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) oherwydd pwysau gwasanaeth a phrinder staff. Fodd bynnag, mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i bob gweithiwr proffesiynol, beth bynnag fo'u cytundeb.

**'Mae'n rhaid ei bod hi'n flynyddoedd ers i mi gael cyfarfod cynllunio swydd. Dydw i ddim yn gwybod pam nad ydw i wedi cael un. Rydw i'n oruchwyliwr addysg; rydw i'n eistedd ar grwpiau cynghori'r llywodraeth, ac rydw i'n ymwneud ag elusennau cenedlaethol. Nid oes dim o hyn mewn cynllun swydd. Rwy'n ceisio gwneud y cyfan yn fy oriau arferol sy'n chwerthinllyd'**

– meddyg SAS

**' Mae cynllunio swyddi yn broblem barhaus. Nid yw'n rhywbeth sydd wedi codi dros nos. Ni all barhau i ddigwydd bob blwyddyn, yr un hen fater ydyw'**

– meddyg SAS

## Rôl SAS yn y dyfodol

- > Efallai y bydd meddygon sy'n ymddeol neu'n diffygio fel meddygon ymgynghorol neu feddygon teulu am ddychwelyd i rôl arbenigol. Dylai fod llwybrau clir, cefnogol ar gyfer y clinigwyr hyn.
- > Dylai'r GIG godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o rôl a photensial y meddyg SAS ymhlith clinigwyr a rheolwyr.
- > Dylai ysgolion meddygol ystyried sut y maent yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o yrfaeodd SAS i fyfyrwyr israddedig.
- > Dylai meddygon SAS gael eu hannog yn frwd gan eu cydweithwyr a chyflogwyr i ddod yn oruchwylwyr addysgol, yn arholwyr prifysgol ac ymgymryd â rolau arwain.

**' Rydw i wedi bod yn feddyg teulu ers dros 20 mlynedd. Doeddwn i byth eisiau bod yn bartner meddyg teulu – rydw i'n mwynhau'r gwaith clinigol yn hytrach na'r fiwrocratiaeth. Yn y dyfodol, rydw i'n meddwl y bydd cydweithwyr ar lefel uwch yn cyrraedd eu pen draw ac eisiau symud i rôl meddyg arbenigol. Mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd i mi a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith'**

– meddyg SAS

- > Dylai cyfarwyddwyr meddygol gefnogi tiwtoriaid ac eiriolwyr SAS yn lleol i drefnu diwrnodau i ffwrdd ar gyfer meddygon SAS, lle gallant rannu dysgu, canolbwyntio ar les a rhwydweithio â chyfoedion. Dylai hyn fod yn amser wedi'i ddiogelu, yn rhydd o ddarparu gwasanaeth.
- > Dylid galluogi tiwtoriaid ac eiriolwyr SAS i gyfarfod yn rheolaidd i drafod arfer da, rhannu dysgu ac archwilio gweithrediad siarter SAS.
- > Yr her fawr yw ymgysylltu â meddygon SAS, sy'n aml yn teimlo eu bod wedi'u difreinio a'u hanwybyddu. I'r perwyl hwn, dylai fod gan bob ysbyty fforwm SAS, a dylai pob bwrdd iechyd gael grŵp llywio SAS, a arweinir gan diwtoriaid ac eiriolwyr lleol.



# Addysgu, gwella, dylanwadu

Drwy ein gwaith gyda chleifion a meddygon, mae Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) yn gweithio i gyflawni newid gwirioneddol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli 42,000 o feddygon a chlinigwyr ledled y byd - gan addysgu, gwella a dylanwadu ar gyfer gwell iechyd a gofal. Mae mwy na 1,600 o aelodau yng Nghymru yn gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned ar draws 30 o wahanol arbenigeddau clinigol, gan wneud diagnosis a thrin miliynau o gleifion ag amrywiaeth enfawr o gyflyrau meddygol. Rydym yn ymgyrchu dros welliannau i ofal iechyd, addysg feddygol ac iechyd y cyhoedd.

[wales@rcp.ac.uk](mailto:wales@rcp.ac.uk)  
[www.rcp.ac.uk/cymru](http://www.rcp.ac.uk/cymru)  
[@RCPWales](https://twitter.com/RCPWales)

[#SASbyChoice](https://twitter.com/SASbyChoice)



**Royal College  
of Physicians**

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)